**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 12 Mehefin 2023 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A J Jeffery | H Lawson | A J O'Connor |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| H J Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau |
| A Pugh | Aelod y Cabinet dros Les |
| H J Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L V Walton

---

## 4 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 18 Mai 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 6 Cylch gorchwyl. (Er gwybodaeth)

Cyflwynwyd y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau Trawsnewid Gwasanaeth a oedd newydd eu sefydlu er gwybodaeth.

**7 Trafodaethau Cynllun Gwaith. (Llafar)**

Esboniodd y Cadeirydd fod trafodaethau wedi'u cynnal â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a Swyddogion Arweiniol gyda'r eitemau canlynol i'w hystyried ar gyfer y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol:

- Strategaeth Gwirfoddoli;
- Gwarcheidiaeth Arbennig - diweddaru'r polisi;
- 'Pan fydda i'n barod' - diweddaru'r polisi;
- Seibiannau byr - Rhieni / Gofalwyr - datganiad o ddiben;
- Codi'r Gwastad - meini prawf ariannu;
- Strategaeth Trechu Tlodi;
- Galluogi a hyrwyddo annibyniaeth; Rhoi'r Strategaeth Technoleg Gynorthwyol ar waith a datblygu opsiynau teleofal/teleiechyd.
- Darpariaeth Gofal Preswyl Mewnol - model darparu / datganiad o ddiben.

Pwysleisiodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod hon yn rhaglen waith drom i'r Pwyllgor, felly byddai angen ystyried yr amserlen ymhellach i sicrhau bod cyfarfodydd yn bwrpasol ac yn hylaw ar gyfer cynghorwyr a Swyddogion. Er bod angen gwaith ar bob un o'r eitemau, efallai y bydd angen ymestyn rhai eitemau i'r flwyddyn nesaf.

**Penderfynwyd** bod y Pwyllgor yn cymeradwyo cynnwys yr eitemau uchod yn rhaglen waith ar gyfer y dyfodol (amserlen i'w chadarnhau).

**8 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd y Dyfodol. (Trafodaeth)**

Trafododd y Pwyllgor ddyddiad ac amser cyfarfodydd y dyfodol.

**Penderfynwyd y** bydd yr holl gyfarfodydd yn y dyfodol yn dechrau am 4pm (yn hytrach na 3.30pm)

Daeth y cyfarfod I ben am 3.39 pm

**Cadeirydd**